

Adroddiad Blynyddol 2021/22



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Gair gan ein Cadeirydd,

M. Wynn Thomas



‘Beibl i bawb o bobl y byd’: dyna’r arwyddair a fabwysiadwyd gan Feibl Gymdeithas Prydain Fawr yn dilyn taith arwrol Mary Jones i’r Bala, er mwyn cyrchu Beibl iddi hi ei hun.

Mae’n amhosib dychmygu’r fath daith yn digwydd y

dyddiau hyn. Ond yn hytrach na gorfod chwilio am lyfr, mae plant Cymru benbaladr newydd gael y cyfle i dderbyn llyfr yr un am ddim yn anrheg, diolch i haelioni’r llywodraeth genedlaethol ac i weithgarwch dihafal y Cyngor Llyfrau. Dyma’r enghraifft ddiweddaraf o’r chwyldro ym maes darllen y bu’r Cyngor yn gyfrifol amdano dros y blynyddoedd diwethaf – cyfnod eithriadol helbulus a phryderus. Mae’n parhau’n anrhydedd i fi fedru arddel perthynas â’r fath gorff. Ond yr her sy’n ein hwynebu’n awr yw cynnal, ac ehangu os bydd modd, y rhaglen arloesol, oleuedig hon wrth i’r sefyllfa ariannol waethygu.

Mae mawr angen amrywiaeth helaeth o destunau er mwyn i’r Cyngor fedru gwasanaethu’r Gymru amlddiwylliannol newydd y mae’r genedl o’r diwedd yn ei gwir gydnabod, ei gwerthfawrogi, a’i dathlu. Cyhoeddwyd dogfen chwyldroadol, heriol gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar yn dwyn y teitl ‘Cymru Wrth-hiliol’, dogfen sy’n cynnwys cynllun manwl o’r camau allweddol i’r cyfeiriad hwnnw y mae’n rhaid eu cymryd. Mae Bwrdd Rheoli y Cyngor, ar y cyd â phob aelod o’r staff, wedi elwa’n ddifawr o wrando ar gyflwyniad golau o brif bwyntiau’r ddogfen gan arbenigwraig yn y maes, ac rwy’n falch fod Tîm Rheoli ac Ymddiriedolwyr y Cyngor wedi rhoi ymrwymiad clir i ehangu mynediad


i’r sector cyhoeddi a chynyddu cynrychiolaeth mewn llenyddiaeth wrth wraidd strategaeth y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Mae’r Cyngor wedi cychwyn o ddifri ar y gwaith o gymryd y camau allweddol i sicrhau bod y cynllun yn wir weithredol ym mhob agwedd ar ei waith.

Ar waethaf yr heriau difrifol y bu’n rhaid eu hwynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mae staff ymroddedig y Ganolfan Ddosbarthu wedi llwyddo i gyflawni eu gwaith yn rhyfeddol. Er yr holl anawsterau, llwyddwyd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd mor eithriadol fel bod y Ganolfan ar ddiwedd y flwyddyn wedi gwneud elw. Mae hwn yn llwyddiant ardderchog ar ran adran nad yw’n derbyn unrhyw arian cyhoeddus am ei gwasanaethau dosbarthu.

Bellach mae’r Cyngor wedi hen ennill ei blwy’ fel sefydliad cenedlaethol allweddol, ac fel un o brif asedau ein diwylliant. Mae felly yn adeg briodol i fi roi’r gorau i fod yn Gadeirydd. Dros yr ugain mlynedd diwethaf, rwy wedi cael y pleser a’r fraind o wyllo datblygiad syfrdanol y Cyngor, a hynny o’r sêd flaen. Ces ei weld yn ymestyn ei gyrhaeddiad diwylliannol ac yn amlhau ei wasanaethau, ac fe ryfeddais at ei hyblygrwydd yn ymaddasu ar gyfer gofynion ein diwylliant digidol. Mae wedi bod yn anrhydedd digymysg ar hyd y blynyddoedd i gael bod yn Gadeirydd y fath gorff. Ac mae wedi bod yn addysg gwylio tri Chyfarwyddwr ysbrydoledig wrth eu gwaith, pob un yn ufudd i weledigaeth genedlaethol a phob un yn gwneud cyfraniad digymar. Rwy hefyd wedi cael gorolwg unigryw ar ddiwydrwydd a dyfeisgarwch ein diwylliant cyhoeddi ni yng Nghymru, a’i weithgarwch amlochrog. Ac nid oes pall ar fy edmygedd o staff y Cyngor, ac o’u hymroddiad dan amgylchiadau digon heriol ar brydiau. Yn olaf, mae arnaf ddiolch hefyd i’r holl wirfoddolwyr sy wedi bod mor barod i gynnig eu hamser a’u sgiliau i wasanaethu ar baneli’r Cyngor, a hynny heb yr un mymryn o dâl. Ac mae cydweithio ar

bwyllgorau â chynifer o ddoniau amlwg, yn fwyaf arbennig y rheini a fu’n gwasanaethu fel trysoryddion,

ysgrifenyddion ac Is-gadeiryddion, wedi bod yn gynhaliath ddibynadwy ar hyd y blynyddoedd. Diolch o waelod calon i chi i gyd, a bydded i’ch gwaith allweddol, ysbrydoledig barhau am yn hir eto. **M. Wynn Thomas**



Helgard Krause, y Prif Weithredwr, yn bwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf



Bu'r flwyddyn ariannol ddiwethaf yn un anghyffredin mewn cynifer o ffyrdd, nid lleiaf oherwydd ein bod wedi dathlu 60 mlynedd ers ein sefydlu trwy gyhoeddi ein hanes hyd yma, comisiynu ffilm fer i ddathlu'r sector

rydym yn ei gefnogi, yn ogystal â lansio ein cynllun strategol pum mlynedd newydd.

Hon hefyd oedd yr ail flwyddyn o fyw a gweithio dan yr amodau a gyflwynwyd yn sgil Covid. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Cyngor Llyfrau weithredu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr newydd, gyda'r Athro Charlotte Williams yn traddodi'r prif anerchiad agoriadol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf. Hon oedd y flwyddyn pryd y cwblhawyd ein proses o ailstrwythuro, a chroesawyd nifer o aelodau newydd o'r staff i'n sefydliad. Gwelsom hefyd don o gefnogaeth gref i lyfrwerthwyr, ac o gyfuno hyn â gwerthiant uchel ar-lein cafwyd un o'r blyneddau gorau o ran gwerthiant ers 2009/10.

O ganlyniad i'r berthynas waith ardderchog sydd rhyngom ni a nifer o adrannau Llywodraeth Cymru, cafwyd ymateb cadarnhaol i nifer o geisiadau i'n galluogi i fynd i'r afael â meysydd yr hoffem roi mwy o gefnogaeth iddynt. Ym mis Tachwedd, cymeradwyodd yr Adran Addysg brosiect cenedlaethol gwyb gwerth £4.6 miliwn i roi llyfrau'n anrheg i ysgolion a dysgwyr, a hwnnw'n cynnwys, am y tro cyntaf, elfen gymunedol gyda banciau bwyd yn derbyn llyfrau ar gyfer defnyddwyr eu gwasanaeth.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Gymru Greadigol, ein cyllidwyr ar ran Llywodraeth Cymru, i'n cais am Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd, a chawsom £610,000 o arian ychwanegol i fuddsoddi mewn cynyddu'r cyfleoedd yn y sector llyfrau i bobl o gymunedau

a dangynrychiolir yma yng Nghymru. Ym mis Mawrth derbyniwyd y gyfran gyntaf o geisiadau am gyllid, a bydd cyfleoedd pellach yn ystod 2022/23.

Erys sicrhau cynrychiolaeth deg ar draws y sector, a'r cynnwys rydym yn ei ariannu, yn flaenoriaeth strategol ac mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn gam cyntaf hollbwysig tuag at gyflawni newid positif parhaol. Bydd adeiladu ar bartneriaethau sy'n bodoli eisoes gydag ysgolion, llyfrgelloedd a llyfrwerthwyr, Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, Race Council Cymru a Disability Arts Cymru, yn ogystal â sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad, yn ganolog i'n

hymdrech i gyflawni ein nodau strategol dros y pum mlynedd nesaf.

Testun diolch o waelod calon a pheth tristwch i mi yw gweld ein Cadeirydd, yr Athro M. Wynn Thomas, yn ymddeol eleni. Mae ei uchelgais ar gyfer elusen wirioneddol genedlaethol sy'n gwasanaethu Cymru gyfan a'i gefnogaeth ddiflino wrth i ni gyflawni'r nod hwnnw yn achos dathlu. Fel Prif Weithredwr, ni allwn fod wedi dymuno

cael gwell Cadeirydd; yn uchelgeisiol, yn dreiddgar, yn chwilfrydig ac eto'n ddi-ffael o garedig a llawn synnwyr digrifwch, mae ei arweinyddiaeth wedi ein helpu ni i gyd i oresgyn rhai cyfnodau heriol gan greu sefydliad cryfach o'r herwydd.

Rwy'n ddyledus iawn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n rhoi'n hael o'u hamser, eu cefnogaeth a'u harbenigedd, ac felly hefyd aelodau ein his-bwyllgorau a'n panelau beirniaid – ni allem wneud ein gwaith oni bai amdanynt hwy. Rwy'n ffodus a diolchgar am gael arwain sefydliad lle mae cydweithwyr ym mhob rhan o'r strwythur ac ar bob lefel yn dangos eu gallu, eu gwytnwch a'u hymroddiad o ddydd i ddydd, ac yn parhau i gyfrannu tuag at wireddu ein cynllun strategol uchelgeisiol.

Ac, fel erioed, ni allai'r rhan yma o'n diwydiannau creadigol ni yng Nghymru fodoli oni bai am ddychymyg awduron, darlunwyr a chyhoeddwr, ac rwy'n hynod ddiolchgar am eu cydweithrediad parhaus. **Helgard Krause**



Sbarduno cariad at ddarllen

Ym mis Tachwedd 2021, a ninnau newydd orffen nodi ein pen-blwydd yn 60 oed, cawsom reswm arall i ddathlu. Cyhoeddodd Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, fuddsoddiad o sawl miliwn mewn ymgysylltu â darllen gan Lywodraeth Cymru, ac ymgyrch fawr i roi llyfrau yn anrheg er budd plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, ac ar ôl ymgynghori â disgyblion o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled y wlad, roedd ymgyrch



Detholiad o'r llyfrau ar gyfer banciau bwyd a grwpiau cymunedol

Caru Darllen Ysgolion ar y gweill. Yng ngham cyntaf y rhaglen ym mis Mawrth, darparwyd dros 40,000 o lyfrau i fanciau bwyd, sefydliadau cymunedol a grwpiau lleol eraill i sicrhau bod llyfrau ar gael i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau lleol ac i ddarparu dewis o adnoddau darllen diddorol ac o ansawdd uchel i deuluoedd eu defnyddio gartref.

Yn ystod y cynllun, y byddwn yn parhau i'w gyflawni yn 2022/23, bydd cannoedd o filoedd o lyfrau yn hedfan i mewn ac allan o'r Ganolfan Ddosbarthu fel rhan o'r prosiect rhoi llyfr yn anrheg mwyaf uchelgeisiol a chyffrous i ni ei reoli erioed. Ar ran Llywodraeth Cymru, byddwn yn cyflwyno detholiad o tua 50 llyfr am ddim i bob ysgol wladol yng Nghymru. Yn ogystal, bydd pob disgybl yn derbyn llyfr unigol o'i ddewis ei hun i'w gadw.

Ni allem gyflwyno'r rhaglen hon heb gefnogaeth barhaus y cyhoeddwr, y llyfrwerthwyr a'r ysgolion sydd wedi croesawu'r cynllun yma i danio angerdd at ddarllen ymhlith plant a phobl ifanc ar draws Cymru.

Croesawu ein Trysorydd newydd

Ym mis Hydref croesawyd penodiad ein Trysorydd newydd, Alfred O. Oyekoya, i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Bydd y rôl bwysig hon yn allweddol wrth arwain y Cyngor wrth i ni gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru trwy adferiad Covid, gan fwrw'n golygon tuag at ein strategaeth newydd ar gyfer 2022 a thu hwnt.


Graddiodd Alfred Oyekoya gydag MSc Cyllid o Brifysgol Abertawe ac mae'n Gyfrifydd Siartredig, gyda phrofiad o arweinyddiaeth a datblygu busnes dros nifer o flynyddoedd. Mae wedi gweithio ar draws nifer o sectorau rhwyngwladol a masnachol gan gynnwys Gwasanaeth Sifil y Deyrnas Unedig.

Mae Alfred yn eiriolwr egniïol, penderfynol ac ymroddedig dros Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ef yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr BMHS – sefydliad dielw sy'n canolbwyntio ar addysg ac eiriolaeth i gefnogi iechyd meddwl a lles ymhlith aelodau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Wrth siarad am ei apwyntiad, dywedodd Alfred: "Y mae'n ffrind cael fy mhenodi ac rwy'n gyffrous am y cyfle i barhau â'r gwaith gwych sydd wedi'i gyflawni mor rhagorol dros y trigain mlynedd diwethaf."

Dywedodd yr Athro M. Wynn Thomas, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr: "Rydym yn falch iawn o groesawu Alfred fel Trysorydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Llyfrau Cymru.


Daw â phrofiad sylweddol o arweinyddiaeth yn y maes ariannol ac ym myd busnes, a ddatblygwyd trwy ei waith blaenorol ar gyfer un o weinyddiaethau Llywodraeth Prydain. Yn ogystal, mae ganddo brofiad gwerthfawr o arwain y sefydliad dielw BMHS. Rwyf fi a'm cyd-aelodau o'r Bwrdd yn edrych ymlaen yn fawr at gydweithio ag Alfred i ddatblygu gwaith y Cyngor."



Dathlu 60 mlynedd o Gyngor Llyfrau Cymru

Ym mis Tachwedd, nodwyd ein pen-blwydd yn 60 oed gydag wythnos lawn o weithgareddau i gydnabod a dathlu 60 mlynedd o gefnogi'r diwydiant llyfrau yng Nghymru, a hyrwyddo darllen er pleser. Drwy gyfrwng dau lyfr a gomisiynwyd yn arbennig, a dwy ffilm fer, amlygwyd gwaddol a gwaith y Cyngor Llyfrau o 1961 hyd heddiw, a'r diwydiant bywiog, creadigol a chyffrous rydym yn falch o'i gefnogi.

Er i ni hefyd, wrth gwrs, fanteisio ar y cyfle i rannu atgofion am y gorffennol (Sbondonics, unrhyw un?!), uchafbwynt yr wythnos hon o ddathlu oedd ffocysu ar edrych i'r dyfodol wrth i ni lansio ein cynllun strategol pum mlynedd am y cyfnod 2022–27, **Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr**. Mae'n amlinellu'r modd y byddwn yn parhau â'n cenhadaeth i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi a hyrwyddo darllen yng nghyd-destun adferiad ar ôl Covid, gan gyfrannu at Raglen Lywodraethu a Datganiad Llesiant Llywodraeth Cymru, a chefnogi'r diwydiant i ymateb i gyfleoedd a heriau'r dyfodol. Rydym eisoes wedi cychwyn ar lawer o'r gwaith cyffrous hwn, ac yn edrych ymlaen at allu cael effaith barhaol a phositif dros gyfnod y cynllun a thu hwnt. Gallwch lawrlwytho'r strategaeth o'n gwefan, llyfrau.cymru.



60



Dyfarnu cyllid i ddau Wasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg

Yn ystod y flwyddyn hon fe ddyfarnwyd y tendr ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Digidol am y cyfnod Ebrill 2022–Mawrth 2026 yn dilyn proses tendro agored. Am y tro cyntaf rhannwyd y grant o £200,000 rhwng dau wasanaeth: Golwg360, gwasanaeth poblogaidd a fydd yn gyfarwydd i lawer o ddarllenwyr Cymraeg, sy'n rhan o gwmni Golwg Cyf, a Corgi

Cymru sy'n wasanaeth newydd sbon ac yn rhan o gwmni Newsquest. O Ebrill 2022 bydd gan ddarllenwyr Cymru ddewis ychwanegol o ddarparwr newyddion yn Gymraeg.



CORGI
CYMRU

golwg360



Lansio Gorau'r Goreuon: cyflwyno hen ffefrynnau i ddarllenwyr newydd

Ym mis Awst lansiwyd tri theitl cyntaf Gorau'r Goreuon, sef detholiad o glasuron Cymraeg i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu hailgyhoeddi ar gyfer cenhedlaeth newydd o ddarllenwyr.

Y teitlau a gyhoeddwyd yn y flwyddyn gyntaf yw *Dirgelwch y Dieithryn* gan Elgan Philip Davies, *O'r Tywyllwch* gan Mair Wynn Hughes a *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones.

Fe gomisiynwyd y gyfres i ymateb i un o argymhellion Dr Siwan Rosser o Brifysgol Caerdydd a gynhaliodd arolwg o lyfrau plant a phobl ifanc i ni yn 2016/17. Mae'r gwaith hwnnw wedi llywio llawer o waith y Cyngor Llyfrau yn y maes hwn ers hynny. Un o'i hargymhellion oedd:

“Dylid ystyried ailgyhoeddi llyfrau poblogaidd Cymraeg neu ‘glasuron’ o'r gorffennol, a'u diweddarau yn rhan o *genre* neu gyfres benodol er mwyn creu marchnad ac iddi frand cynhenid cryf sy'n para o un genhedlaeth i'r llall.”

Sefydlwyd panel o arbenigwyr ym maes llenyddiaeth plant a phobl ifanc i dethol o blith y teitlau y gellid eu cynnwys

ar y rhestr gychwynnol hon.

Cyhoeddwyd *Luned Bengoch* yn wreiddiol ym 1946 gan Wasg y Brython, ac yna diweddarwyd y cynnwys gan Hugh D. Jones a'i ailgyhoeddi gan Wasg Gomer ym 1983. Gwasg Gomer hefyd oedd cyhoeddwyd *O'r Tywyllwch* ym 1991 a *Dirgelwch y Dieithryn* ym 1993, y naill yn rhan o gynllun Gwreiddiau a'r llall yn rhan o Gyfres Corryn.

Ychydig iawn o waith golygyddol oedd ei angen ar y tair stori gyntaf i gael eu dewis ar gyfer y gyfres, i'w gwneud yn addas ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd cyfoes. Rhan o'r gwaith o ddod â nhw'n fyw i ddarllenwyr newydd oedd ailddychmygu'r cloriau, ac rydym wedi comisiynu tri artist cyfoes i ddylunio'r cloriau: Efa Blosse-Mason, Chris Iloff a Nia Tudor.

Y bwriad yw ychwanegu at y gyfres yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac rydym yn gobeithio derbyn argymhellion gan y cyhoeddwyd a'r cyhoedd am deitlau eraill i'w cynnwys yn y casgliad.

Cefnogi siopau ledled Cymru a thu hwnt

Rydym wedi ehangu ein sylfaen cwsmeriaid yng Nghymru gyda siopau llyfrau megis Siop y Pentan, Llanelli, Cyfoes, Llandeilo a Ffloc yng Nghaerdydd; a hefyd o fewn y Deyrnas Unedig rydym yn gweithio gyda Books etc., Blackwells a Findel. Mae'r siopau yr ydym yn eu cefnogi yn amrywio o emporiwm gemau a chastell i ganolfan arddio, ac rydym yn gobeithio ehangu ymhellach fel bod llyfrau ar gael ym mhob math o safleoedd manwerthu. Yn 2021/22 hefyd, gwelwyd ehangu ar ein gwasanaeth dosbarthu i gartrefi i'r siopau llyfrau, gyda thros 1,000 o barseli'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at gwsmeriaid ar ran y siopau llyfrau. Mae'r datblygiad hwn nid yn unig yn caniatáu i siopau llyfrau gystadlu a chynnis gwasanaeth da, ond mae hefyd yn well i'r amgylchedd gyda llai o filltiroedd i'w teithio.

Ehangu e-lyfrau

Mae Ffolio, plattfform e-lyfrau a grëwyd yn Ionawr 2021, yn parhau i dyfu, o ran y nifer o e-lyfrau sydd ar gael, a hefyd mewn partneriaeth â Bolinda i sicrhau bod amrywiaeth o e-lyfrau ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r niferoedd benthyca yn galonogol a gobeithiwn y byddant yn argyhoeddi llyfrgelloedd i fuddsoddi mewn e-lyfrau Cymraeg yn y dyfodol.

Siop y Pentan, Llanelli

Dianc i fyd y llyfrau

Yn ystod y cyfnod clo, trodd llawer ohonom at lyfrau at ddibenion lles, cysur ac adloniant. Wrth i'r diwydiant ymateb i heriau'r pandemig, llwyddodd hefyd i wella ein mynediad i fyd llyfrau Cymreig, gyda chynnydd yn y nifer o deitlau o Gymru oedd ar gael mewn gwahanol fformatau, megis e-lyfrau a llyfrau llafar, a chan ddod â rhagor ohonom yn nes at yr awduron oedd wedi eu creu, trwy gyfrwng digwyddiadau ar-lein a phodlediadau.


Does dim byd gwell na chlywed o lygad y ffynnon gan awduron yn trafod eu

syniadau, eu profiadau a'u hargymhellion yn gysylltiedig â'r llyfrau rydym wedi eu mwynhau. Dyma rai o'r podlediadau a gefnogwyd gennym, i gynnig ysbrydoliaeth yn ymwneud â darllen:

Colli'r Plot Gyda Bethan Gwanas, Dafydd Llewelyn, Sian Northey a Manon Steffan Ros.

Caru Darllen Podlediad oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru. Gofod i drafod llyfrau o bob math gyda gwahanol westeion.

Podlediad Barddas Y lle i glywed sgysiau rhwng beirdd gorau Cymru.



barddas



Ein blwyddyn mewn rhifau

42,065

o lyfrau wedi'u dosbarthu i gyd i **152** o fanciau bwyd a grwpiau cymunedol



187

o lyfrau Cymraeg wedi eu cefnogi gan grantiau



132

o lyfrau Saesneg wedi eu cefnogi gan grantiau

60

mlynedd o gefnogi'r diwydiant cyhoeddi a dathlu darllen



140

o ysgolion wedi cymryd rhan yng nghynllun cysgodi Gwobr Tir na n-Og



433

o e-lyfrau wedi'u rhoi ar Ffolio



27,950 kWh

o drydan wedi ei gynhyrchu gan y paneli solar, sy'n arbed tua **15.7** tonnelli o CO2 y flwyddyn



253

o archebion rhyngwladol wedi'u hanfon i **24** o wledydd gwahanol

650,753

o lyfrau wedi eu hanfon allan gan y Ganolfan Ddosbarthu



1,171

o eitemau newydd wedi eu hychwanegu at yr ystod sydd ar gael o'r Ganolfan Ddosbarthu



388

o siopau wedi eu gwasanaethu





**ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Prif Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen 2–4

Crynodeb o Waith y Flwyddyn 4–5

Cyflawniad a Pherfformiad 6–7

Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol 8–9

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr 10

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 11–14

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol 15

Mantolen 16

Datganiad o'r Llif Arian 17

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 18–34

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Cyflwynna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2022. Dyma flwyddyn gyntaf yr Elusen yn gweithredu fel Sefydliad Corfforedig Elusennol. Trosglwyddwyd yr asedau a'r rhwymedigaethau o'r hen elusen i'r sefydliad newydd ar 1 Ebrill 2021.

Prif Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen

- Cefnogi a chynorthwyo'r diwydiant llyfrau yng Nghymru drwy ddyfarnu grantiau a thrwy ddulliau eraill;
- Cefnogi, hybu a chynorthwyo cynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunyddiau llenyddol ac artistig eraill, ym mha ffurf bynnag y'u cofnodwyd (boed trwy ddulliau hysbys neu rai sydd hyd yma'n anhysbys), yn nwy iaith swyddogol Cymru, y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ymwneud â Chymru;
- Trefnu digwyddiadau i gefnogi hyrwyddo llyfrau, darllen a'r sector llyfrau yn ei gyfanrwydd;
- Cefnogi a hybu cyhoeddi'r cyfryw lyfrau a deunyddiau eraill yng Nghymru.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried eu dyletswydd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 ynglŷn â Budd y Cyhoedd. Maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r meini prawf hynny. Amcan craidd Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales yw darparu budd i ddarllenwyr Cymru – yn y ddwy iaith.

Manylion Gweinyddol

Enw'r elusen	Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales
Rhif Elusen Gofrestredig	1192269
Cyfeiriad Cofrestredig	Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
Archwilwyr	Llŷr James Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig 25 Stryd y Bont Caerfyrddin SA31 3JS
Bancwyr	HSBC plc Sgwâr Harford Llanbedr Pont Steffan Ceredigion SA48 7DU
Prif Weithredwr	Helgard Krause
Brocer Buddsoddiadau	Blackrock 12 Throgmorton Avenue London EC2N 2DL

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Ymddiriedolwyr

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, sy'n Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Ymddiriedolwyr a hyd at 12 o aelodau. Etholir yr Ymddiriedolwyr i wasanaethu am gyfnod o 4 blynedd yn y lle cyntaf, gydag opsiwn o ail dymor o 4 blynedd. Caiff y Cadeirydd ei ethol yn flynyddol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yn yr haf lle mae'r aelodau'n derbyn y cyfrifon blynyddol a'r adroddiad blynyddol.

Yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2021/22 yw:

Yr Athro M. Wynn Thomas	Cadeirydd
Mrs Rona Aldrich	Is-gadeirydd
Mr Alfred Oyekoya	Trysorydd
Yr Athro Jane Aaron	
Mrs Rajvi Glasbrook Griffiths	
Mrs Alwena Hughes Moakes	
Ms Lowri Ifor	
Yr Athro Carwyn Jones	
Mrs Linda Tomos	
Yr Athro Gerwyn Williams	
Dr Caroline Owen Wintersgill	
Mr Christopher Hywel Macey	Ymddiswyddo 26/07/21

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales. Trosglwyddwyd Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales i fod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol ar 1 Ebrill 2021.

Y Cyngor a'i Bwyllgorau

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn penodi aelodau i is-bwyllgorau arbenigol sy'n adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae proses hysbysebu agored sydd yn deg a thryloyw, yn unol â'r arferion gorau, yn digwydd ar gyfer yr holl swyddi sydd ar gael ar y Bwrdd a'r is-bwyllgorau.

Crynodeb o Waith y Flwyddyn

Mae'r flwyddyn ariannol ddiwethaf hon wedi bod yn rhyfeddol mewn sawl ffordd, nid lleiaf oherwydd ein bod wedi dathlu pen-blwydd y sefydliad yn 60 oed trwy gyhoeddi ein hanes hyd yma, comisiynu ffilm fer i dathlu'r sector rydym yn ei gefnogi, yn ogystal â lansio ein cynllun strategol 5 mlynedd.

Hon hefyd oedd yr ail flwyddyn o fyw a gweithio dan yr amodau a ddaeth i fod oherwydd Covid. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r Cyngor Llyfrau weithredu dan y drefn newydd fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn cael ei reoli gan fwrdd o ymddiriedolwyr newydd, a'r Athro Charlotte Williams a roddodd y prif anerchiad agoriadol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf. Hon oedd y flwydd y cwblhawyd ein proses ailstrwythuro, a chroesawyd nifer o aelodau newydd o staff i'n sefydliad. Yn ogystal, gwelwyd ton gref o gefnogaeth i lyfrwerthwyr lleol, ac arweiniodd hynny – ynghyd â gwerthiant yr un mor gryf ar-lein – at un o'r perfformiadau gorau o ran gwerthiant ers 2009/10.

Datblygiadau Busnes

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon cafwyd perfformiad arbennig o gryf ar draws y sector, gan gynnwys ein Canolfan Ddosbarthu ni ein hunain. Roedd yr awydd cryf i gefnogi siopau lleol ar y stryd fawr, ynghyd â chynnydd parhaus mewn gwerthu ar-lein, yn golygu ein bod wedi cofnodi un o'r blyneddau cryfaf ers 2009/10. Enillodd y Ganolfan Ddosbarthu nifer o gleientiaid newydd ym maes dosbarthu; cyfrannodd hyn at dwf yn y busnes, ac felly hefyd lwyddiant cyson y system ddosbarthu newydd 'yn syth i'r cartref' a oedd ar gael i siopau llyfrau a chyhoeddwyd i'w galluogi i gyflenwi archebion o'r we. Cafodd y problemau posibl gyda chadwyni cyflenwi a allai fod wddi effeithio ar y cyfnod masnachu hollbwysig cyn y Nadolig eu lliniaru trwy gynnal cysylltiad cryf ac agos a chyfathrebu'n aml gyda chyhoeddwyd a llyfrwerthwyr; roeddynt hwythau wedi cymryd i ystyriaeth y cyngor a gawsant i beidio â dibynnu ar adargraffiadau ac archebion munud olaf, gan arwain at berfformiad cryf.

Datblygu Cyhoeddi – Uchafbwyntiau

Arweiniodd y berthynas waith ardderchog gyda gwahanol adrannau o Lywodraeth Cymru at gael derbyniad positif i nifer o geisiadau, gan roi sylw i feysydd y byddem yn hoffi rhoi mwy o gefnogaeth iddynt. Rhoddodd yr Adran Addysg sêl ei bendith ar brosiect cenedlaethol gwych gwerth £4.6 miliwn i roi llyfr yn anrheg i ysgolion a dysgwyr, gan gynnwys, am y tro cyntaf, elfen gymunedol gyda banciau bwyd yn derbyn llyfrau ar gyfer y rhai oedd yn defnyddio eu gwasanaethau. Cafwyd ymateb mor gadarnhaol i'r cynllun arbennig hwn fel ein bod wedi penderfynu ei ehangu i ddarparu copïau o'r gyfres Stori Sydyn/Quick Reads yn gynnar yn yr haf, a chynnal ymgyrch arall yn nes at y Nadolig. Yn ogystal, caiff y grant hwn effaith economaidd sylweddol ar y cyhoeddwyd a'r llyfrwerthwyr sy'n rhan o'r prosiect.

Roeddem wrth ein bodd ein bod ni, ynghyd â'n cyd-weithwyr o'r Reading Agency, yn 2022/23 wedi sicrhau swm ychwanegol o £250,000 o'r Adran Iechyd i barhau i ddarparu'r cynllun Darllen yn Well – rhaglen gyhoeddi sy'n ffocysu ar Iechyd Meddwl a Lles ar gyfer oedolion ifanc.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Cafwyd ymateb positif gan ein cyllidwyr, Cymru Greadigol, i'n cais am Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd, a buddsoddiwyd £610,000 i gynyddu'r cyfleoedd yn y sector llyfrau i rai o'r cymunedau a dangynrychiolir yma yng Nghymru. Mae'r gyfran gyntaf hon eisoes wedi darparu cyllid cychwynnol i ddau gyhoeddwr newydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol; sianel YouTube yn hyrwyddo barddoniaeth a llenyddiaeth o Gymru; cynlluniau peilot ar gyfer dau gylchgrawn newydd am anabledd; nifer o brosiectau cymunedol yn ymwneud â ffoaduriaid a Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru, yn ogystal â'r llyfrau sain cyntaf ar gyfer rhai sy'n dysgu Cymraeg. Mae dwy rownd ychwanegol o gyllid wedi eu clustnodi ar gyfer prosiectau eraill.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym ni yng Nghyngor Llyfrau Cymru yn cydnabod bod y diffyg cydraddoldeb strwythurol sy'n bodoli o fewn y gymdeithas ehangach yng Nghymru i'w weld hefyd yn ein sector ni ein hunain. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cynrychiolaeth deg o fewn ein sefydliad ni ein hunain ac o fewn y sector llyfrau yng Nghymru. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, yr arweinyddiaeth weithredol, y rheolwyr a'r arweinwyr tîm, yn deall bod sicrhau cyfleoedd yn gyfrifoldeb unigol ac ar y cyd, a bod hynny wrth galon diwylliant ein sefydliad. Rydym wedi penodi Bwrdd Ymddiriedolwyr newydd, ac wedi cynyddu amrywiaeth o fewn ein his-bwyllgorau a'n panelau beirniaid, ond mae yna fwy eto i'w wneud.

Yn benodol, rydym yn ceisio goresgyn yr heriau o ddenu staff o gymunedau a dangynrychiolir gan ein bod wedi ein lleoli yn y Gymru wledig ac wedi ymrwymo i gynnal ein busnes o ddydd i ddydd yn yr iaith Gymraeg. Mae eraill yn rhannu'r un heriau, ac ni chânt eu datrys gennym ar ein pen ein hunain. Mae'n rhaid wrth ymdrech dorfol dros Gymru gyfan, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i greu atebion ar gyfer newid dilys a pharhaol. Fel prif gefnogwyr a chyllidwyr y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb dros yr effaith a gawn ar y bobl rydym yn eu cefnogi, ein partneriaid, ein cyflogeion, a'r gymdeithas ehangach. Mae ystyriaethau megis cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'n gwaith o wneud yr holl benderfyniadau cyllido fel y gallwn helpu partneriaid i gyflawni newid positif a sicrhau cynrychiolaeth deg yn y cynnwys a gyllidir gennym ni. Rydym yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar faterion yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Materion Corfforaethol

Penodwyd Trysorydd newydd, Mr Alfred Oyekoya, gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac ymunodd â'i gyfarfod cyntaf o'r Bwrdd yn Ionawr 2022.

Yn dilyn yr ailstrwythuro, gwnaed penodiad i rôl newydd Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio ym mis Awst 2021, ac mae'n aelod o'r tîm rheoli. Mae creu rôl bwrbasol ar gyfer Cyfathrebu wedi bod yn ganolog i'r gwaith o ddelio â'r cynnydd mewn ymholiadau oddi wrth y llywodraeth a'r cyfryngau, yn ogystal â'r dathliadau 60 mlynedd, ynghyd â'r cynnydd mewn gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Bu gwelliant o ran safle brand y Cyngor Llyfrau, gyda llawer mwy o ddiddordeb mewn swyddi a hysbysebiriad nag a gafwyd yn y gorffennol. Gwnaed penodiad i rôl newydd Rheolwr Cyfrifon Allweddol ym mis Gorffennaf 2021, i weithio'n agos gyda chleientiaid ym maes cyhoeddi.

Parhaodd y gwaith o weithredu systemau TG newydd ar gyfer dosbarthu, gwaith warws a chyllid. Datblygwyd platfform i rannu dogfennau'n ddigidol â'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod y dogfennau hynny'n hygyrch, ac i leihau'r gwaith o'u hargraffu a'u postio.

Cyflawniad a Pherfformiad

TARGEDAU ALLWEDDOL 2021/22		
	2021/22 Targed	2021/22 Cyflawni
Teipysgrifau – Adran Olygyddol	170	152
Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio	110	110
Gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu	£4.05m gros £2.7m net	£4.8m gros £3.2m net
Lefel dyledwyr y Ganolfan	Dim mwy na 2%	0.9%
Gwales: targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein	£70,000	£93,964

TARGEDAU ALLWEDDOL 2021/22 – GRANTIAU CYHOEDDI		
	2021/22 Targed	2021/22 Cyflawni
Grantiau Cymraeg		
Nifer y teitlau a gyhoeddir	175	187
Cyfartaledd gwerthiant	1,000 ar ôl 18 mis	994
Cyfanswm y cylchgronau Cymraeg	16	16
Cyhoeddi prydlon yn unol â'r amserlen	98%	95%
Grantiau Saesneg		
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	75	71
Nifer y teitlau blaendal awdur a gyhoeddir	15	25
Grantiau Marchnata	20	34
Nifer y cylchgronau llenyddol	6	6
Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau llenyddol	Cyffredinol – 1,000 Aml-ffocws – 500 Ffocws unigol – 400	674 (+80% digidol)
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	95%	95%

Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol

Derbyniwyd cyfanswm o £13.4m o incwm yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â £7.7m yn 2020/21. Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i arian mawr y prosiect Caru Darllen (£4.6m) yr ymrwymwyd y rhan fwyaf ohono cyn diwedd y flwyddyn. Sicrhawyd grantiau ychwanegol gwerth £510,500 gan Adran y Gymraeg mewn Addysg i brynu llyfrau i ysgolion a llyfrgelloedd, ac rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth.

Roedd incwm y Ganolfan Ddosbarthu wedi'i adfer i lefelau'r cyfnod cyn Covid, ac mae'n parhau i wneud elw bychan, a hynny oherwydd gwelliant ym maint yr elw. Mae prosiectau mawr wedi helpu i fanteisio ar y capasiti staff sydd ar gael, ond mae'n braf nodi hefyd y gwelwyd adferiad o fewn y diwydiant ei hun.

O'r gwariant o £12.3m (o'i gymharu â £7.5m yn 2020/21), y symiau ym mhriiad y Cynllun Pensiwn sydd yn bennaf gyfrifol am y gwarged net o £1,078,619 (o'i gymharu â £268,705 yn 2020/21).

Gwella ychydig oedd hanes buddsoddiadau'r Cyngor (£194K) a buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn, o gymharu â mis Mawrth 2021.

Ar 31 Mawrth 2022, roedd yr asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) yn £3.3m (2020/21: £2m). Mae'r cynnydd oherwydd amseru gwariant y cynllun cyfalaf a fydd yn cael ei wario dros y 2 flynedd nesaf. Mae'r diffyg yn y pensiwn yn cymylu perfformiad ariannol cadarnhaol, ond bydd rhan helaeth o'r gronfa gyfyngedig yn cael ei gwario yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y Polisi Arian Wrth Gefn i sicrhau bod gan y Cyngor gyllid digonol i gwrdd ag unrhyw ofynion gwariant cyfalaf annisgwyl, a hefyd i ddellio â'r elfen o risg sydd ynghlwm â rhedeg Canolfan Ddosbarthu nad yw'n derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r cronfeydd ariannol hyn mewn nifer o gategoriâu:

Cronfeydd Anghyfyngedig

- Cronfeydd Cyfalaf – £500,000 i gwrdd â chost hanesyddol yr adeiladau a gwariant cyfalaf annisgwyl. Byddwn yn cynnal archwiliad o'r adeiladau dros y flwyddyn nesaf, gan flaenoriaethu lle mae angen gwariant pellach o'r gronfa yma.
- Cronfeydd Refeniw
 - Pensiwn: Ar 31 Mawrth 2022, roedd gweddill o £2,583,000 (2020/21: £3,477,000). Mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gyfraniadau gyda Chronfa Pensiwn Dyfed tan 31 Mawrth 2024. Cipolwg a geir yma ar ddiwedd y flwyddyn; fodd bynnag, mae'r prisiad actiwaraid hwn a gynhelir yn 2022/23 yn debygol o argymhell cynydd yn y cyfraniadau.
 - Y Cyngor: Cronfa gadw heb fod yn fwy na 2% o'r grant blyneddol (a fyddai'n golygu £74,600 yn 2021/22). Mae'r gronfa eleni yn £132,464, sydd ychydig yn uwch na'r targed, o ganlyniad i swyddi gwag yn ystod y flwyddyn, sy'n fanteisiol yn y tymor byr.
 - Y Ganolfan Ddosbarthu: Targed o gronfa ddigonol i dalu gorbenion am 6 mis (ac eithrio disgownt) (£304,653 ar sail ffigurau 2021/22). Maint y gronfa eleni yw £253,144, sydd ychydig yn llai na'r targed.

Cronfeydd Penodol

Yn ogystal â'r arian mewnol a neilltuwyd, mae cronfa o £976,737 bellach ar gael ar gyfer y system newydd, gyda chytundeb â KNK y bydd cyfran helaeth o'r swm yma yn cael ei wario dros y ddwy flynedd nesaf. Wrth i'r system newydd gael ei chyfalafu – er y bu gwariant cyfalaf yn erbyn y prosiect – nid yw'r gronfa hon ond yn cyfrif am y costau refeniw a'r dibrisiant ar y gost gyfalaf.

Cronfeydd Cyfyngedig

Mae'r cronfeydd yma ar gyfer y defnydd a nodir yn nodyn 20 yn unig.

Prif Noddwyr

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyfran helaeth o arian y Cyngor Llyfrau; heb y gefnogaeth yma, ni fyddai modd i'r Cyngor gyflawni ei waith.

Polisi Buddsoddiadau

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i fuddsoddi pan maent yn credu bod buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol rhagweladwy.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad gwirfoddolwyr sydd yn gweithio'n ddi-dâl ar amrywiol banelau a chynlluniau'r Cyngor. Ni allwn roi gwerth ariannol ar yr holl waith yma, felly nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

Trafodion Partïon Cysylltiol

Mae staff ac ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac fel y bônt yn codi. Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn sydd yn diweddau 31 Mawrth 2022 gan yr ymddiriedolwyr.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol, ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r mathau y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Rhagdybiaeth Busnes Hyfyw

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cyngor adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae'n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu lawn-amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaeth mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored, ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR:

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth gymwys ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth; datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a gaiff eu hegluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd yr Elusen yn parhau i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hynny.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr Elusen yn gymharol gywir ar unrhyw adeg, a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedau'r Elusen ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall.

Yn ôl dealltwriaeth yr ymddiriedolwyr:


- nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol ohoni;
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ofal a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei chynnwys ar safle we'r Elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

ARCHWILWYR

Yn y Cyfarfod Blyneddol, cynigir ailbenodi'r archwilwyr, Llŷr James.

Cymeradwywyd adroddiad yr ymddiriedolwyr, a'r cyfrifon blyneddol, ar 25 Gorffennaf 2022.



Yr Athro M. Wynn Thomas

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Llyfrau Cymru (yr 'elusen') am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 sef y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen yn ogystal â'r nodiadau perthnasol, yn cynnwys crynodeb o'r polisiâu cyfrifo perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisiâu cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, 'Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr elusen ar 31 Mawrth 2022 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a wariwyd ganddi am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi yn unol â'r Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, ac
- wedi eu paratoi yn unol â Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y Deyrnas Unedig) (SRhA-DU) a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny wedi eu disgrifio dan Gyfrifoldebau'r Archwiliwr sy'n rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor ar Adroddiadau Ariannol ('FRC'), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â hyfywdra

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr ymddiriedolwyr yn gywir wrth baratoir datganiadau ariannol ar y sail bod yr elusen yn hyfyw.

Ar sail y gwaith a wnaethpwyd gennym, nid ydym wedi darganfod unrhyw ansicrwydd sylweddol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw unrhyw amheuaeth ar allu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw am gyfnod nid llai na deuddeg mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ynglŷn â hyfywdra wedi eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr hyn sydd yn yr Adroddiad Blyneddol heblaw'r datganiadau ariannol eu hunain ac adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall ac oni bai ein bod yn datgan fel arall, nid ydym yn datgan unrhyw farn arni.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022 (PARHAD)

Fel rhan o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ag unrhyw fanylion sy'n deillio o'r gwaith archwilio. Os ydym yn dod ar draws unrhyw anghysonderau sylweddol, mae angen i ni benderfynu a oes unrhyw beth naill ai yn y datganiadau ariannol neu'r wybodaeth arall yn gamarweiniol. Os, ar sail ein gwaith, rydym o'r farn bod unrhyw ddatganiad yn gamarweiniol, mae'n ofynnol i ni ddatgan hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Ein barn ni ar faterion eraill yn unol â Deddf Elusennau 2011

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r hyn sydd yn y datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad blynyddol ac adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion sydd angen adroddiad drwy eithriad

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi darganfod unrhyw anghysonderau sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw sylw ar y materion canlynol y mae Ddeddf Elusennau 2011 yn mynnu ein bod yn eich hysbysu yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw: neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo; neu
- nad yw rhai manylion ynglŷn â thâl yr ymddiriedolwyr wedi eu datgelu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i'r archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, nhw sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn ddigonol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o anghysonderau yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu gan ddatgelu, os yw'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyfywdra'r elusen oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r gweithgareddau i ben, neu nad oes dewis ganddynt ond i wneud hynny.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022 (PARHAD)

Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan Ddeddf Elusennau 2011 (adran 144) ac rydym yn adrodd yn unol â rheoleiddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw ddatganiadau sy'n gamarweiniol, yn deillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi ei gynnal yn unol â SRhA (DU) bob amser yn canfod camgymeriadau sylweddol. Gall camgymeriadau ddeillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir camgymeriadau felly yn sylweddol os, yn unigol neu fel cyfanswm, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll, yn enghraifft o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio dulliau gweithredu yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddadlennu camddatganiadau sylweddol o ran afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae'n dulliau gweithredu yn ein galluogi i ddadlennu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant, nodwyd bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yn ymwneud â thorri egwyddorion rheoleiddiol y Deyrnas Unedig, fel y rheiny a reolir gan y Comisiwn Elusennau, ac ystyriwyd i ba raddau y byddai peidio â chydymffurfio yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, megis Deddf Elusennau 2011. Aseswyd cymhellion a chyfleoedd o ran camddefnydd twyllodrus o'r datganiadau ariannol gan y tîm rheoli (gan gynnwys y risg o fynd y tu hwnt i reolaeth ariannol), a phenderfynwyd bod y prif risgiau yn gysylltiedig â throsglwyddo'r asedau a'r dyledion o'r Elusen i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd ac amseru cydnabyddiaeth o incwm a gwariant grant i ystumio perfformiad ariannol. Mae'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r tîm rheoli, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll;
- Adolygu pob gohebiaeth, mewnol ac allanol, mewn perthynas â throsglwyddo asedau a dyledion yr Elusen i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol;
- Adolygu gohebiaeth allweddol gyda'r Comisiwn Elusennau yn ymwneud â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- Adolygu cofnodion perthnasol cyfarfodydd y Bwrdd;
- Dethol sampl o drafodiadau a'u holrhain yn ôl i'r dogfennau perthnasol er mwyn cadarnhau eu bod yn drafodiadau busnes *bona fide*; a
- Dethol sampl o incwm grantiau a'i olrhain yn ôl er mwyn sicrhau bod y gwariant perthnasol wedi ei gynnwys yn yr un cyfnod ariannol;
- Dewis sampl o incwm grant a'i olrhain i sicrhau bod cyfrif amdano yn y cyfnod cywir, a bod y gwariant cyfatebol hefyd yn cael ei gynnwys yn yr un cyfnod ariannol; a
- Llunio dulliau gweithredu sy'n cydnabod yr hyn sy'n anrhagweladwy ynghylch natur, amseru neu hyd a lled ein profion.

Mae cyfyngiadau anorfod yn rhan gynhenid o'r dulliau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau pan nad oes cysylltiad agos rhyngddynt a digwyddiadau a thrafodiadau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022 (PARHAD)

Fel rhan o'r archwiliad, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) rydym yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad; llunio a gweithredu dulliau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny; a sicrhau tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol ac yn addas i seilio ein barn arni. Mae'r risg o beidio â dod o hyd i achos o gamddatgan tystiolaeth oherwydd twyll yn uwch nag un sy'n deillio o gamgymeriad, gan fod twyll yn medru cynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor deunydd yn fwriadol, camliwio, neu fynd y tu hwnt i reolaeth fewnol.
- Sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio dulliau archwilio sy'n addas i'r amgylchiadau, ond nid er mwyn lleisio barn ar effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol.
- Gwerthuso addasrwydd y polisïau cyfrifo a ddefnyddiwyd, ynghyd â rhesymoldeb cyfrifon a amcangyfrifir a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan yr ymddiriedolwyr.
- Cadarnhau ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar y sail fod yr elusen yn hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a oes ansicrwydd sylweddol ai peidio mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw. Os penderfynwn fod ansicrwydd sylweddol yn bod, mae'n rhaid i ni dynnu sylw yn adroddiad yr archwilwyr at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r datgeliadau yn annigonol, rhaid i ni addasu ein barn. Seilir ein casgliadau ar dystiolaeth yr archwiliad hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi i'r elusen ddirwyn i ben fel elusen hyfyw.
- Gwerthuso holl gyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodiadau ariannol a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n gyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am reoli ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol a wneir ganddo, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol yn y rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Defnydd o'n hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Deddf Elusennau 2011. Ymgwymerwyd â'r gwaith archwilio fel bod modd i ni ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan yn adroddiad yr archwilwyr, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw un ond yr elusen ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am unrhyw farn a ffurfiwyd gennym.

.....*Bethan Vaughan*.....

DYDDIAD:25 Gorffennaf 2022.....

BETHAN VAUGHAN

Prif Archwiliwr Statudol

Ar gyfer ac ar ran

LLŶR JAMES Cyf., Archwilwyr Statudol, 25 Stryd y Bont, Caerfyrddin SA31 3JS

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2022 £	Cyfanswm 2021 £
Incwm drwy weithgaredd elusennol						
Grantiau Llywodraeth Cymru	3	1,129,277	180,000	8,667,576	9,976,853	4,931,290
Grantiau Eraill	4	–	–	56,500	56,500	234,729
Adrannau Eraill	5	144,544	–	5,500	150,044	172,853
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	9	3,240,447	–	–	3,240,447	2,339,569
Buddsoddiadau	4	–	–	4,704	4,704	4,734
Cyfanswm adnoddau a dderbynnir		4,514,268	180,000	8,734,280	13,428,548	7,683,175
Adnoddau a wariwyd						
Gweithgaredd elusennol						
Grantiau wedi eu dosbarthu	6/7	–	–	2,600,722	2,600,722	2,600,723
Prosiectau penodol		–	–	4,708,796	4,708,796	532,208
Gwariant elusennol	8	1,462,601	59,547	296,286	1,818,434	1,943,338
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	9	3,221,977	–	–	3,221,977	2,338,201
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	10	4,684,578	59,547	7,605,804	12,349,929	7,414,470
Adnoddau net a dderbynnir cyn trosglwyddiadau		(170,310)	120,453	1,128,476	1,078,619	268,705
Enillion / (Colledion) cydnabyddedig eraill						
(Colled) wirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	21	1,105,000	–	–	1,105,000	391,000
Symudiad ar y buddsoddiadau	14	–	–	3,891	3,891	24,877
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd		12,138	(6,590)	(5,548)	–	–
		1,117,138	(6,590)	1,657	1,108,891	415,877
Symudiadau net yn y cronfeydd	23	946,828	113,863	1,126,819	2,187,510	684,582
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2021		(2,644,220)	862,874	304,440	(1,476,906)	(2,161,488)
Balansau a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2022	18–20	(1,697,392)	976,737	1,431,259	710,604	(1,476,906)

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Ymddiriedolwyr yr Elusen yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigurau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi bod sefyllfa Cronfa Bensiwn Dyfed y tu hwnt i reolaeth yr elusen.

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r elusen flaenorol o'r un enw ac fe'u darperir am resymau cymharol yn unig.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 18 i 34 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

MANTOLEN ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	2022		Cymharol	
		£	£	2021	£
Asedau sefydlog					
Eiddo parhaol	13	629,550		415,522	
Buddsoddiadau	14	193,524		188,006	
		823,074		603,528	
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	15	5,704,895		273,029	
Stoc y Ganolfan Ddosbarthu		206,451		261,788	
Arian yn y banc ac mewn llaw	16	1,215,797		1,577,396	
		7,127,143		2,112,213	
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	17	4,656,613		715,647	
Asedau cyfredol net					
		2,470,530		1,396,566	
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		3,293,604		2,000,094	
Cronfa Bensiwn	22	(2,583,000)		(3,477,000)	
		710,604		(1,476,906)	
Cronfeydd					
Anghyfyngedig	18	885,608		832,780	
Cronfa Bensiwn	22	(2,583,000)		(3,477,000)	
Anghyfyngedig yn dilyn addasiad pensiwn	18	(1,697,392)		(2,644,220)	
Penodol	19	976,737		862,874	
Cyfyngedig	20	1,431,259		304,440	
		710,604		(1,476,906)	


Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r elusen flaenorol o'r un enw ac fe'u darperir am resymau cymharol yn unig.

Cymeradwywyd gan Swyddogion Mygedol a Phrif Weithredwr y Cyngor ar 25 Gorffennaf 2022 a llofnodwyd ar eu rhan gan y canlynol:

Yr Athro M. WYNN THOMAS Cadeirydd

ALFRED OYEKOYA Trysorydd

HELGARD KRAUSE Prif Weithredwr





CYNGOR LLYFRAU CYMRU

LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2022

	Nodyn	2022 £	Cymharol 2021 £
<i>Llif arian yn deillio o weithgareddau gweithredu</i>			
Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu	24	(361,599)	809,873
Arian ar ddechrau'r flwyddyn		1,577,396	767,523
Arian ar ddiwedd y flwyddyn	24	<u>1,215,797</u>	<u>1,577,396</u>

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r elusen flaenorol o'r un enw ac fe'u darperir am resymau cymharol yn unig.

1. Polisiâu Cyfrifo

Nodir isod y prif bolisiâu cyfrifo a fabwysiadwyd, a'r dyfarniadau a'r ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd a ddilynwyd, wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

a. Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn effeithiol o 1 Ionawr 2015) – (Elusennau SORP (FRS 102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl y gost hanesyddol neu werth y trafodiad, oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifo perthnasol.

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r elusen flaenorol o'r un enw ac fe'u darperir am resymau cymharol yn unig.

b. Stoc

Dangosir y stoc ar yr isaf o'r gost neu'r pris gwerthadwy net. Cyfrifir cost ar sail gwerth pryniant. Seilir gwerth masnachol ar amcan o bris gwerthu llai'r amcan o'r gost gwaredu.

c. Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Ar y fantolen, mae gan Gyngor Llyfrau Cymru ddiffyg ariannol o £710,604 (2021: £1,476,906). Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno'r rhwymedigaeth a gysylltir â'r Cynllun Pensiwn â Buddion Wedi'u Diffinio. Mae'r Diffyg yn y Pensiwn yn rhwymedigaeth tymor hir, ac mae'r Elusen mewn sefyllfa i gwrdd â'i holl rwymedigaethau cyfredol. Caiff rhwymedigaeth tymor byr y diffyg hwn ei chydabod gan yr ymddiriedolwyr, ac maent mewn sefyllfa i gwrdd â'r holl oblygiadau hyn. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn fod yr Elusen, ar y sail yma, yn fusnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon ar sail y rhagdybiaeth fod yr elusen yn gallu parhau i weithredu fel busnes hyfyw, rhywbeth y mae'r ymddiriedolwyr yn ei ystyried yn briodol.

Nid yw effeithiau pandemig COVID-19 na throsglwyddo endid y Cyngor o fod yn elusen i fod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) ar 1 Ebrill 2021 wedi effeithio ar y rhagdybiaeth hon.

ch. Costau pensiwn

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Gyda mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2014, dangosir yr atebolrwydd hwn yn llawn ar y Fantolen. Caiff yr addasiadau i'r datganiadau ariannol yn dilyn yr addasiad hwn eu dangos yn nodyn 18, gyda'r diffyg pensiwn llawn yn cael ei ddangos yn nodyn 22.

d. Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

dd. Asedau sefydlog

Nodwyd asedau sefydlog gwirioneddol ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig. Darperir ar gyfer dibrisiant yn ôl cyfraddau a amcangyfrifwyd i ddileu'r gost yn gyson dros y cyfnod y disgwylir i'r ased wasanaethu'n ddefnyddiol, llai yr amcangyfrif o'r gwerth terfynol, fel a ganlyn:

- Cyfrifiaduron ac offer eraill – dros 5 mlynedd (ar ôl cwblhau)
- Darnau gosod a gosodiadau – dros 5 mlynedd
- Cerbydau modur – 5 mlynedd

Nid oes gostyngiad yng ngwerth y tir a'r adeiladau rhydd-ddaliad, gan fod y gwerth gweddilliol yn uwch na'r gwerth ar y Fantolen.

e. Grantiau sy'n daladwy

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo goblygiad cytundebol yn bodoli, er gwaethaf y ffaith y gallant gael eu talu mewn cyfnodau eraill yn y dyfodol.

f. Adnoddau a dderbynnir

Caiff adnoddau a dderbynnir eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo gan yr Elusen hawl i'r incwm, ac y gellir mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r polisïau penodol isod yn berthnasol i wahanol gategorïau o incwm:

- Grantiau: rhoddir cyfrif am y rhain pan fyddant yn gysylltiedig â pherfformiad ac amcanion penodol, gan fod yr Elusen yn ennill yr hawl i gael ei hystyried yn ôl ei pherfformiad. Pan dderbynnir incwm cyn iddo gael ei gydnabod, caiff ei ddal yn ôl a'i gynnwys gyda chredydwyd. Lle bo hawl yn digwydd cyn y derbynnir yr incwm, caiff yr incwm ei gronni. Cyfrifir grantiau cyfalaf fel incwm cyn gynted ag y bydd modd eu derbyn.
- Incwm Masnachu: bydd incwm a godir trwy weithredu'r Ganolfan Ddosbarthu dan reolaeth yr Elusen yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo ymrwymiad cytundebol yn bodoli.
- Cymynroddion: hawl yw'r cyntaf o ddau beth – naill ai bod yr Elusen yn cael ei hysbysu o ddosraniad a fydd yn digwydd yn fuan, neu bod y gymynrodd yn cael ei derbyn.

ff. Treth

O ganlyniad i'w statws elusennol, nid oes angen i'r Elusen dalu treth gorfforaeth.

2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Y gwarged/ (diffyg) am y flwyddyn ar ôl tynnu'r canlynol:

	2022	2021
	£	£
Costau banc	8,524	6,837
Ffi'r Archwilwyr	7,800	7,400
Dibrisiant	30,907	6,896

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

3. Grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru

	2022	2021
	£	£
Cymru Greadigol		
Grant craidd	1,129,277	1,129,277
Grantiau Cyhoeddi i'w dosbarthu	2,600,722	2,600,723
Grant cyfalaf	180,000	630,000
Grant Cynulleidfaoedd Newydd	610,000	–
Adran y Gymraeg mewn Addysg		
Prosiect llyfrau i ysgolion	510,500	405,632
Cyllido catalog	4,999	4,999
Prosiect E-lyfrau	30,000	–
Prosiect Iaith Arwyddo (BSL)	4,000	–
Adran Addysg		
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	140,000	140,000
Cynllun Caru Darllen	4,679,831	–
Adfer wedi Covid		
Cronfa Cadernid Economaidd	–	1,000
Is-adran Diwylliant		
Cynllun Darllen yn Well	67,524	–
Cynllun Hyrwyddo Darllen	20,000	19,659
	9,976,853	4,931,290

4. Grantiau Eraill

	2022	2021
	£	£
Cyngor Sir Ceredigion	2,500	9,449
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	–	35,280
Gŵyl Ddarllen Cheltenham	1,500	–
CILIP Cymru Wales	5,000	–
The Reading Agency	47,500	190,000
	56,500	234,729

5. Incwm – Adrannau Eraill a Buddsoddiadau

	2021	2020
	£	£
Cronfeydd anghyfngedig		
Golygu	18,010	16,205
Dylunio	19,075	13,990
Cyfathrebu a Marchnata	21,770	–
Gwerthu a Gwybodaeth	63,859	68,098
Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	3,001	–
Incwm Buddsoddiadau	4,704	–
	7,806	7,984
Incwm amrywiol	18,829	65,160
Cronfeydd cyfyngedig		
Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	5,500	–
Nawdd Cynllun Hyrwyddo Darllen	–	3,559
Cronfa Goffa T. Llew Jones	–	2,768
Tlws Mary Vaughan Jones	–	1
	154,748	177,587

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

6. Gwariant – Grantiau Cyhoeddi

	Nodyn	2022 £	2021 £
<u>Cymraeg</u>			
Grantiau tuag at lyfrau	7a	455,012	447,233
Grantiau awduron a darlunwyr		367,410	402,730
Cynllun penodiadau a hyfforddiant	7b	214,348	214,184
Grantiau tuag at gylchgronau	7c	400,248	356,414
Arian i'r wasg Gymraeg	7ch	202,820	200,000
Grantiau i lyfrau llafar		-	3,230
Grantiau tuag at farchnata		30,244	29,565
Partneriaethau ac ymchwil		7,844	5,390
Grantiau i lyfrwerthwyr		24,125	25,215
Grantiau i greu e-lyfrau		1,500	26,989
<u>Saesneg</u>			
Grantiau tuag at lyfrau	7d	248,606	265,470
Grantiau tuag at gylchgronau	7dd	175,918	204,125
Grantiau tuag at farchnata		104,948	46,484
Cynllun penodiadau	7e	81,375	135,625
Grantiau i Awduron		79,117	37,466
Clasuron		1,500	6,000
Hyfforddiant		5,480	1,875
Corff i'r sector		3,090	3,000
Costau gweinyddol		197,137	192,627
Cyfanswm Grantiau Cyhoeddi		2,600,722	2,600,723

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7. Grant fesul cyhoeddwr

7a. Cyhoeddwy'r Cymraeg – grantiau llyfrau	2022	2021
	£	£
Y Lolfa	126,163	127,966
Gwasg Carreg Gwalch	106,089	108,730
Gwasg Gomer	–	14,487
Rily	49,000	48,900
Gwasg y Dref Wen	43,520	43,520
Cyhoeddiadau Barddas	27,300	29,100
Atebol	29,985	29,365
Gwasg y Bwthyn	31,085	22,270
Llyfrau Broga	12,650	–
Dalen Llyfrau	8,790	5,760
Cyhoeddiadau'r Gair	7,700	4,000
Cyhoeddiadau Curiad	–	2,600
Graffeg	5,580	4,085
Gwasg Arachne	2,660	–
Cyhoeddiadau Modern	1,750	–
Dalen Newydd	1,370	–
Honno	1,370	–
Gwasg Prifysgol Cymru	–	4,000
Cara	–	2,450
	455,012	447,233

7b. Cyhoeddwy'r Cymraeg – Cynllun Penodiadau	2022	2021
	£	£
Y Lolfa	80,284	80,284
Gwasg Carreg Gwalch	42,204	42,204
Rily	26,832	26,832
Gwasg y Bwthyn	24,480	20,580
Cyhoeddiadau Barddas	15,180	15,180
Atebol	15,116	15,116
Cyhoeddiadau'r Gair	6,752	6,752
Hyfforddiant	3,500	4,337
	214,348	211,285

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7c. Cyhoeddwy'r Cymraeg – cylchgronau a gefnogwyd

	2022	2021
	£	£
Barn	100,000	60,000
Golwg	77,000	77,000
O'r Pedwar Gwynt	34,000	36,500
Cip	34,000	31,000
Wcw	30,000	30,000
Y Cymro	24,000	24,000
Barddas	20,000	20,000
Lysh	18,998	18,664
Lingo Newydd	18,000	18,000
Cara	10,000	10,000
Y Selar	11,000	11,000
Y Wawr	8,000	8,000
Llafar Gwlad	8,750	5,250
Y Traethodydd	3,000	4,000
Cristion	2,000	1,500
Fferm a Thyddyn	1,500	1,500
	400,248	356,414

7ch. Cyhoeddwy'r Cymraeg – cylchgronau a gefnogwyd

	2022	2021
	£	£
Golwg	200,000	200,000
Costau panel a chytundebau cyfreithiol	2,820	–
	202,820	200,000

7d. Cyhoeddwy'r Saesneg – grantiau llyfrau

	2022	2021
	£	£
Seren	71,250	95,000
Parthian	50,100	50,100
Firefly	37,615	35,200
Honno	35,988	35,987
Y Lolfa	26,433	12,816
Gwasg Carreg Gwalch	11,920	1,500
Gwasg Prifysgol Cymru	7,200	7,500
New Welsh Review	3,000	2,900
Broken Sleep	2,100	–
Aderyn Press	1,500	–
The Ghastling	1,500	–
Cinnamon Press	–	11,250
Gwasg Gomer	–	6,400
Costau panel	–	4,017
Rily	–	1,800
Cyhoeddiadau Modern	–	1,000
	248,606	265,470

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7dd. Cyhoeddwy'r Saesneg – cylchgronau a gefnogwyd

	2022	2021
	£	£
New Welsh Review	45,000	45,000
Planet	33,750	57,500
Wales Arts Review	27,500	34,375
Poetry Wales	20,000	20,000
Nation.Cymru	20,000	25,000
The Welsh Agenda & Click on Wales	17,500	17,500
Grantiau cylchgronau bach	9,250	4,750
Costau eraill gwerthuso cylchgronau	2,918	–
	175,918	204,125

7e. Cyhoeddwy'r Saesneg – Cynllun Penodiadau

	2022	2021
	£	£
Parthian	17,250	28,750
Honno	16,125	32,005
Y Lolfa	11,250	18,750
Gwasg Prifysgol Cymru	11,250	8,620
Firefly	11,250	18,750
Seren	5,775	14,625
Graffeg	5,850	9,750
Gwasg Carreg Gwalch	2,625	4,375
	81,375	135,625

8. Gwariant adrannau

	2022	2021
	£	£
Costau		
Golygu	116,066	105,985
Dylunio	110,420	95,989
Cyfathrebu a Marchnata	93,746	117,134
Gwerthu	252,940	406,549
Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmer	245,502	–
Llyfrau Plant	104,125	81,949
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	160,000	161,254
Cynllun Darllen yn Well	136,286	243,461
Gwariant adnewyddu a chyfalaf a dibrisiant	59,548	105,883
Costau cefnogi	334,284	328,658
Costau anarferol		
Darpariaeth ar gyfer tâl gwyliau	(8,184)	17,254
Cyfraniadau pensiwn ychwanegol	–	95,700
Tâl diswyddo a chostau ad-drefnu	2,700	73,266
Symudiad yn Rhwymedigaeth y Cynllun Pensiwn	211,000	227,000
	1,818,434	1,943,338

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

9. Incwm a Gwariant y Ganolfan Ddosbarthu

	2022	2021
	£	£
<i>Incwm</i>	3,240,447	2,339,569
<i>Costau</i>		
Llyfrau a brynwyd	2,612,672	1,790,901
Cyflogau, yswiriant, pensiwn	338,480	367,413
Costau rhedeg cerbydau	10,101	8,597
Teithio, cynhaliaeth	362	257
Cludiant, post, deunydd pacio	132,973	97,570
Prynu, cynnal a chadw offer	31,365	30,839
Rhent, trethi, gwres, golau, ffôn	13,444	11,585
Yswiriant, cynnal a chadw adeiladau	14,883	12,354
Argraffu, papur	2,405	2,344
Disgownt a ganiateir	25,521	17,188
Mân wariant	15,884	12,018
Drwgddyledion	17,297	—
Dibrisiant	6,590	—
Cyfanswm Gwariant	3,221,977	2,338,201
 Elw /(Diffyg) am y flwyddyn	 18,470	 1,368

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

10. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

	Costau Staff	Costau Eraill	Grantiau	Cyfanswm 2022	Cyfanswm 2021
	£	£	£	£	£
Costau elusennol uniongyrchol	1,503,748	8,245,459	2,600,722	12,349,929	7,414,470

11. Staff

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	1,085,337	1,148,429
Yswiriant Gwladol Cyflogwr	100,339	110,036
Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	218,072	171,851
Diffyg o'r gorffennol yn y Pensiwn	100,000	95,700
Cyfanswm cyflogau	1,503,748	1,577,944
 Cyfartaledd nifer y staff a gyflogid yn ystod y flwyddyn (Swyddi llawn-amser)	 36	 40

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth 1 aelod o'r staff (2021 – 1) ennill, gan gynnwys yswiriant cenedlaethol, rhwng £60,000 a £70,000.

Costau staff allweddol

Ynghyd â'r Prif Weithredwr, mae 6 phennaeth adran (2021 – 5) sy'n ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli, a gwnaethpwyd y taliadau isod iddynt yn ystod y flwyddyn:

	2022	2021
	£	£
Cyflogau	261,204	228,625
Treuliau Nawdd Cymdeithasol	28,363	25,336
Costau pensiwn	51,457	33,608
	341,024	287,569

12. Tâl i'r ymddiriedolwyr

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw dâl gan eu bod yn cael eu penodi gan awdurdodau neu gyrff allanol, ac nid oes ganddynt hawl i dderbyn tâl. Y swm am ddigolledu treuliau (teithio i gyfarfodydd ayyb) yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd £DIM (2021: £Dim).

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

13. Asedau Sefydlog

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £	Cyfrifiaduron ac offer eraill £	Celfi a mân offer £	Cerbydau modur £	Cyfanswm £
Gwerth					
Ar 1 Ebrill 2021	253,008	360,917	45,301	–	659,226
Ychwanegiadau	–	165,649	10,550	68,736	244,935
Ar 31 Mawrth 2022	253,008	526,566	55,851	68,736	904,161
Dibrisiant					
ar 1 Ebrill 2021	–	225,987	17,717	–	243,704
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	–	8,154	9,006	13,747	30,907
ar 31 Mawrth 2022	–	234,141	26,723	13,747	274,611
Gwerth net					
ar 31 Mawrth 2022	253,008	292,425	29,128	54,989	629,550
ar 31 Mawrth 2021	253,008	134,930	27,584	–	415,522

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

14. Buddsoddiadau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd gwerth y buddsoddiadau hyn ar y farchnad yn £193,524 (2021 – £188,006).

Mae'r buddsoddiadau'n cael eu dal gan gwmni Blackrock yng nghronfeydd Charinco a Charinshare sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain.

Cydnabyddir y buddsoddiadau yn ôl eu gwerth masnachol ar ddyddiad y fantolen. Mae'r buddsoddiadau wedi cael eu hailbrisio, a chydnabyddir unrhyw enillion neu golledion yn y Dadansoddiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

15. Dyledwyr

	2022 £	2021 £
Dyledwyr masnachol	194,447	154,269
Dyledwyr eraill	5,499,690	107,710
Blaendaliadau	10,758	11,050
	5,704,895	273,029

Mae pob swm a nodir yn ddyledus mewn llai na blwyddyn.

16. Arian yn y banc ac mewn llaw

	2022 £	2021 £
Tocynnau Llyfrau	281,462	277,625
Eraill	934,335	1,299,719
	1,215,797	1,577,344

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

17. Credydwyr: Symiau'n dod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn

	2022	2021
	£	£
Credydwyr masnachol	3,093,662	366,316
Tocynnau Llyfrau	1,409,177	223,664
Trethi a Phensiwn	—	—
Credydwyr eraill	153,774	125,666
	<u>4,656,613</u>	<u>715,646</u>

Nid oes unrhyw gredydwyr am fwy nag un flwyddyn, ac eithrio tocynnau llyfrau lle na ellir bod yn sicr pryd y byddant yn daladwy.

18. Cronfeydd Anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2021	Derbyniwyd	Talwyd	Trosglwyddiad a phensiwn	Balans 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cronfeydd Cyfalaf	500,000	—	—	—	500,000
Cronfeydd Incwm					
Cronfa Bensiwn	(3,477,000)	—	211,000	1,105,000	(2,583,000)
Cyngor	98,106	1,273,821	1,251,601	12,138	132,464
Canolfan					
Ddosbarthu	234,674	3,240,447	3,221,977	—	253,144
	<u>(2,644,220)</u>	<u>4,514,268</u>	<u>4,684,578</u>	<u>1,117,138</u>	<u>(1,697,392)</u>

19. Cronfa Benodol

	Balans 1 Ebrill 2021	Derbyniwyd	Talwyd	Trosglwyddo	Balans 31 Mawrth 2022
	£	£	£	£	£
Cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru	632,180	180,000	59,547	(6,590)	746,043
Cronfa datblygiadau cyfrifiadurol	230,694	—	—	—	230,694
	<u>862,874</u>	<u>180,000</u>	<u>59,547</u>	<u>(6,590)</u>	<u>976,737</u>

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

20. Cronfeydd Cyfyngedig

		Balans 1 Ebrill 2021 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Balans 31 Mawrth 2022 £
Cronfa Dr Dewi Davies	i	60,267	1,829	(1,443)	63,539
Cronfa Hybu Awduron	ii	44,607	—	(3,024)	47,631
Tlws Mary Vaughan Jones	iii	4,849	—	—	4,849
Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion	iv	83,132	2,876	3,654	82,354
Cronfa Alun Creunant Davies	v	586	—	586	—
Cronfa T. Llew Jones	vi	2,768	—	2,768	—
Grantiau i'w dosbarthu					
Grantiau Cyhoeddi	vii	—	2,600,722	2,600,722	—
Grant Argyfwng	viii	52,765	—	52,765	—
Grant Cynulleidfaoedd Newydd	vix	—	610,000	1,150	608,850
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	x	—	160,000	160,000	—
Adran y Gymraeg mewn Addysg	xi	4,361	510,500	485,102	29,759
Caru Darllen	xii	100,000	4,679,831	4,108,994	570,837
Prosiect Iaith Arwyddo (BSL)	xiii	—	4,000	4,000	—
Prosiect E-lyfrau	xiv	—	30,000	30,000	—
Catalog	xv	—	4,999	4,999	—
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	xvi	2,642	—	2,642	—
Cyngor Sir Ceredigion	xvii	5,000	2,500	7,500	—
CILIP Cymru Wales	xviii	—	5,000	5,000	—
Gŵyl Lenyddol Cheltenham	xix	—	1,500	260	1,240
Prosiectau mewnol	xx	—	5,500	5,500	—
The Reading Agency – Darllen yn Well	xxi	34,978	47,500	68,957	13,521
Is-adran Diwylliant – Darllen yn Well	xxii	8,485	67,523	67,329	8,679
		304,440	8,734,280	7,607,461	1,431,259

i. Cronfa Dr Dewi Davies

Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu gwobrau ar gyfer cystadlaethau hybu darllen ymhlith plant a phobl ifanc.

ii. Cronfa Hybu Awduron

Cronfa gyffredinol i hybu ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg.

iii. Tlws Mary Vaughan Jones

Mae'r gronfa'n cael ei defnyddio bob tair blynedd ar gyfer gwobrwyo un a wnaeth gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant dros gyfnod o flynyddoedd.

iv. Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion

Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu Gwobrau Tir na n-Og a gweithgareddau ym maes llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc.

v. Cronfa Alun Creunant Davies

Rhodd a dderbyniwyd i gynhyrchu cyfrol i ddathlu gwaith y Cyngor, lle bu peth gwariant yn ystod y flwyddyn – cyhoeddwyd y gyfrol ym mis Tachwedd 2021.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

- vi. Cronfa T. Llew Jones**
Derbyniwyd cyfraniad gan elusen oedd yn dod i ben dan yr amod y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo Cronfa T. Llew Jones. Gwnaed taliad yn ystod y flwyddyn am berfformiad theatrig i hyrwyddo llyfrau T. Llew Jones.
- vii. Grant Cyhoeddi Llywodraeth Cymru**
Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i bwrpasau penodol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredol a'r Llythyr Dyfarnu. Mae'r is-bwyllgorau datblygu cyhoeddi yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r cyllid yma, a hwy sydd yn rhoi sêl bendith ar unrhyw wariant o'r gronfa hon.
- viii. Grant Argyfwng**
Gwnaethpwyd cais i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi'r sector llyfrau, a derbyniwyd £150,000 ym mis Mawrth 2021. Dosbarthwyd gweddill yr arian ym mis Tachwedd 2021.
- ix. Grant Cynulleidfaoedd Newydd**
Dyfarnwyd £200,000 gan Gymru Greadigol yn wreiddol, tuag at raglen i annog cynulleidfaoedd newydd i ymwneud â darllen. Wedi hynny, ychwanegwyd arian fel bod y cyfanswm yn £610,000, ac er i £187,500 gael ei ddyfarnu dros dro cyn diwedd y flwyddyn (yn amodol ar ei dderbyn), bydd y gweddill yn cael ei gyfrif a'i dalu yn ystod 2022/23.
- x. Cynlluniau Hyrwyddo Darllen**
Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i gynlluniau hyrwyddo darllen (Stori Sydyn/ Quick Reads, Diwrnod y Llyfr a Sialens Ddarllen yr Haf). Mae £140,000 o'r cyllid yn cael ei ddyfarnu gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn dod fel cyfraniad allanol i'r prosiect gan Waterstones.
- xi. Adran y Gymraeg mewn Addysg**
Derbyniwyd £510,500 i brynu llyfrau i holl ysgolion Cymru – rhaglen Iechyd Da – a ddosbarthwyd rhwng Ebrill a Hydref 2021.
- xii. Caru Darllen**
Nod yr Adran Addysg yw rhoi llyfr yn anrheg i bob disgybl. Mae sawl haen i'r prosiect hwn gan gynnwys rhoi llyfrau i fanciau bwyd, llyfrau unigol i ddisgyblion, tocynnau llyfrau i ddisgyblion (i ddewis eu llyfr eu hunain) a bocs o lyfrau i ysgolion. Er bod yr holl lyfrau hyn wedi eu harchebu cyn diwedd y flwyddyn ariannol, o ystyried maint y prosiect, mae'n debygol o gymryd 12 mis i'w gwblhau.
- xiii. Iaith Arwyddo (BSL)**
Darparwyd cyllid o £4,000 i ddrafftio cytundebau gyda chyhoeddwr er mwyn cael yr hawliau i greu fideos sy'n addas ar gyfer plant â nam ar eu clyw. Cwblhawyd y prosiect yn ystod y flwyddyn.
- xiv. Prosiect E-lyfrau**
Derbyniwyd cyllid o £30,000 gan Adran y Gymraeg mewn Addysg i greu e-lyfrau newydd i blant ysgol. Cwblhawyd y prosiect hwn yn ystod y flwyddyn.
- xv. Grant catalog**
Derbyniwyd symiau ychwanegol o arian gan Adran y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer cynhyrchu catalog llyfrau plant yn 2021 (£4,999), fel mewn blynyddoedd blaenorol.
- xvi. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
Yn 2020, mewn prosiect ar y cyd ag Elusen Stephens & George, trefnwyd bod llyfrau ar gael i deuluoedd difreintiedig yn sir Merthyr, gyda'r cyllid yn dod drwy law Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Cwblhawyd y gwaith gwerthusol yn 2021/22.
- xvii. Cyngor Sir Ceredigion**
Cynhaliwyd prosiect ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion i ddosbarthu llyfrau i deuluoedd difreintiedig yng Ngheredigion. Daeth y prosiect i ben yn ystod y flwyddyn, ond derbyniwyd £5,000 ychwanegol i ariannu prosiect gyda gofawyr ifanc a gyflawnwyd ym mis Mehefin 2021.

- xviii. CILIP Cymru Wales**
Dyfarnodd CILIP Cymru Wales gais Kathleen Cookson i dalu am adolygiad o lyfrgelloedd ysgolion yng Nghymru. Mae'r gwaith ar y prosiect hwn yn mynd rhagddo.
- xix. Gwyliau Cheltenham**
Darparodd y cynllun £1,500 tuag at y rhaglen 'Reading Teachers = Reading Pupils' er mwyn ei gyflwyno yng Nghymru.
- xx. Prosiectau mewnol**
Cyfrannodd y grant cyhoeddi tuag at brosiectau hyrwyddo darllen penodol, yn cynnwys cyllid ar gyfer 'Gorau'r Goreuon' (ailargraffiad o lyfrau hanesyddol da) a map digidol o Gymru.
- xxi. The Reading Agency – Darllen yn Well**
Dyma drydedd flwyddyn y rhaglen Darllen yn Well. Darperir yr arian gan The Reading Agency, sy'n elusen gofrestredig Brydeinig, ond sydd yn derbyn yr arian i'r prosiect yma gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yma wedi ei neilltuo ar gyfer cyfieithu a chyhoeddi llyfrau yn ymwneud ag iechyd meddwl plant, a bydd y cyfrolau ar gael mewn llyfrgelloedd ac i'w prynu. Er i drydedd ran y cynllun (iechyd meddwl plant) ddod i ben yn Awst 2021 mae rhywfaint o weithgarwch wedi digwydd ers hynny, a bydd unrhyw arian a fydd ar ôl yn cael ei drosglwyddo i'r pedwerydd cylch (iechyd meddwl yn yr arddegau) a ddechreuodd ym mis Ebrill 2022.
- xxii. Is-adran Diwylliant – Darllen yn Well**
Derbyniwyd grant tuag at gost llyfrau'r cynllun Darllen yn Well ac iddosbarthu llyfrau ac e-lyfrau i lyfrgelloedd lleol, yn ogystal â chyllid i droi rhai o lyfrau'r cynllun yn llyfrau llafar.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

21. Dadansoddiad o'r Asedau Net rhwng y Cronfeydd

	Eiddo Parhaol/ Buddsoddiadau £	Asedau Cyfredol Net £	Credydwy'r Hir Dymor £	Cyfanswm £
Cronfeydd Cyfyngedig				
Cronfa Dr Dewi Davies	63,539	–	–	63,539
Cronfa Hybu Awduron	47,631	–	–	47,631
Tlws Mary Vaughan Jones	–	4,849	–	4,849
Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion	82,354	–	–	82,354
Adran y Gymraeg mewn Addysg	–	29,759	–	29,759
Cynllun Caru Darllen	–	570,837	–	570,837
Grant Cynulleidfaoedd Newydd	–	608,850	–	608,850
Gŵyl Lenyddol Cheltenham	–	1,240	–	1,240
The Reading Agency – Darllen yn Well	–	13,521	–	13,521
Is-adran Diwylliant – Cynllun Darllen yn Well	–	8,679	–	8,679
Cronfeydd Cyfyngedig	193,524	1,237,735	–	1,431,259
Cronfa Benodol	376,542	600,195	–	976,737
Cronfeydd Anghyfyngedig	253,008	632,600	(2,583,000)	(1,697,392)
	823,074	2,470,530	(2,583,000)	710,604

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

22. Cynllun Pensiwn

Natur y Cynllun: Budd-dal Diffiniedig

Dyddiad y Prisiad Actiwaraid llawn diwethaf: 31 Mawrth 2021

TYBIAETHAU ACTIWARAIDD

Tybiaethau Ariannol	Dechrau'r Flwyddyn	Diwedd y Flwyddyn
Graddfa chwyddiant	2.70%	3.30%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.20%	4.80%
Graddfa cynnydd pensiynau	2.80%	2.80%
Cyfradd disgownt	2.10%	2.80%

Mae ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a rhaniad yr asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2022. Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer dechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2021.

Mantolen yr Eitemau ar 31 Mawrth 2022

	£000
Gwerth yr Asedau ar y Farchnad	14,951
Dyledion	(17,534)
Gweddill (Diffyg)	<u>(2,583)</u>

Symudiadau'r (Diffyg) yn ystod 2021/22

Gweddill (Diffyg) ar ddechrau'r flwyddyn	(3,477)
Cost Gyfredol y Gwasanaeth	(474)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	337
Cost cyfraniadau blaenorol	—
Llog Net	(70)
Costau gweinyddu	(4)
Cynnydd Actiwaraid neu newid yn y ffordd o fesur	1,105
Gweddill/(Diffyg) ar ddiwedd y flwyddyn	<u>(2,583)</u>

Datgeliadau Ychwanegol Asedau Pensiwn

	Asedau ar 31.03.22		Asedau ar 31.03.21	
	£000	%	£000	%
Soddgyfrannau	10,810	72	10,361	74
Bondiau Llywodraeth	194	1	—	4
Bondiau Eraill	1,181	8	1,624	12
Eiddo	1,959	13	1,554	11
Arian	807	6	462	3
Cyfanswm	<u>14,951</u>		<u>14,001</u>	
Dyledion ar 31.03.22	<u>17,534</u>		<u>17,478</u>	

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

23. Symudiad net yn y cronfeydd

	2022	2021
	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig		
Cronfeydd Incwm		
Canolfan Ddosbarthu	18,470	1,368
Cyngor	34,358	(17,534)
Cronfa Bensiwn	894,000	164,000
Cronfa Benodol	113,863	69,386
Cronfeydd Cyfyngedig	1,126,819	33,995
	<u>2,187,510</u>	<u>684,582</u>

24. Cysoniad o incwm (gwariant) net i'r llif arian o weithgareddau gweithredu net

	2022	2021
	£	£
Incwm net am y flwyddyn	2,187,510	684,583
Addasiadau:		
Gwariant cyfalaf	(244,935)	(169,410)
Dibrisiant	30,907	6,896
(Cynnydd)/Gostyngiad yng ngwerth y Buddsoddiadau	(5,518)	(24,877)
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y cynllun buddion wedi'u diffinio	(894,000)	(164,000)
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y stoc	55,337	46,150
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y dyledwyr	(5,431,866)	442,646
Cynnydd /(Gostyngiad) yn y credydwy	3,940,966	(12,115)
Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu	<u>(361,599)</u>	<u>809,873</u>

25. Ymrwymadau Cyfalaf

	2022	2021
	£	£
Wedi'u ymrwymo ond heb ddarpariaeth amdanynt yn y datganiadau ariannol	258,911	409,721